**CYNGOR CAERDYDD**

COFNODION

# CYFARFOD Y CABINET: 15 Chwefror 2018

Aelodau Cabinet yn Bresennol: Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)
Y Cynghorydd Peter Bradbury
Y Cynghorydd Susan Elsmore
Y Cynghorydd Russell Goodway
Y Cynghorydd Graham Hinchey
Y Cynghorydd Sarah Merry
Y Cynghorydd Michael Michael
Y Cynghorydd Lynda Thorne
Y Cynghorydd Christopher Weaver
Y Cynghorydd Caro Wild

Gwylwyr: Y Cynghorydd Joe Boyle
Y Cynghorydd Neil McEvoy
Y Cynghorydd Adrian Robson

Swyddogion: Paul Orders, y Prif Weithredwr
Christine Salter, Swyddog Adran 151
David Marr, ar ran y Swyddog Monitro
Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet

## COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 18 IONAWR 2018

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2018

## CAIS I GODI PRIS TEITHIAU CERBYD HACNI

Yn dilyn yr adroddiad a ystyriwyd gan y Cabinet ar 14 Rhagfyr 2017 mewn perthynas â chais a roddwyd gerbron gan Dragon Taxis i amrywio'r ffioedd am gerbydau hacni yng Nghaerdydd, derbyniodd y Cabinet adroddiad arall yn amlinellu'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod rhybudd cyhoeddus statudol. Nodwyd y derbyniwyd 3 gwrthwynebiad.

**PENDERFYNWYD:**

1. nodi cynnwys yr adroddiad a sylwadau ddaeth i law yn Atodiad B i ystyried y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 14 Rhagfyr 2017 i ddiwygio’r tabl ffioedd.

2. cymeradwyo’r cais a gyflwynwyd gan Dragon Taxis gyda dyddiad gweithredu o 12 Mawrth 2018.

**ADOLYGIAD O GANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF**

*Datganodd y Cynghorydd Merry fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd bod Heol Wedal yn ei ward hi.*

*Datganodd y Cynghorydd Weaver fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd bod Heol Wedal yn ei ward ef.*

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn ceisio awdurdod i archwilio'r achos busnes dros ddarparu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Y Cartref (CAGC) ychwanegol. Amlinellodd yr adroddiad yr angen i adolygu’r ddarpariaeth yng nghyd-destun twf y ddinas yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1. awdurdodi paratoi achos busnes ar ofynion posibl yn y dyfodol i wasanaethau CAGC ychwanegol yng Nghaerdydd ac i ganfyddiadau’r achos busnes gael eu cyflwyno i gyfarfod y Cabinet yn y dyfodol i’w hystyried.

2. dechrau gwerthuso opsiynau safle i nodi lleoliad a ffefrir o bosibl yn y dyfodol ar gyfer cyfleusterau CAGC ychwanegol ac i’r canfyddiadau gael eu cyflwyno i gyfarfod y Cabinet yn y dyfodol i’w hystyried.

**CYLLIDEB 2018/19**

***Ni fydd Atodiad 11(d) yn cael ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi’i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

*Datganodd y Cynghorydd Bradbury fuddiant personol yn yr eitem gan ei fod yn aelod o Ymddiriedolaeth Chwaraeon Trelái a Chaerau.*

Ystyriodd y Cabinet y cynigion ar gyfer y cyllideb ar gyfer 2018/19 cyn eu hargymell i’r Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD:** wedi ystyried sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau mewn perthynas â chadernid y gyllideb a digonoldeb arian wrth gefn fel sy'n angenrheidiol dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb yr argymhellir y Cyngor i:

1.0 Gymeradwyo'r cyllidebau Refeniw, Cyfalaf, Cyfrif Refeniw Tai gan gynnwys yr holl gynigion a chynyddu'r Dreth Gyngor gan 5.0% fel y nodir yn yr adroddiad hwn a bod y Cyngor yn cadarnhau'r termau canlynol.

2.0 Nodi i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017 gyfrif y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) 143,453 – sef y swm a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

b)

| | |
|---|---|
| Llys-faen | 2,350 |
| Pentyrch | 3,263 |
| Radur | 3,709 |
| Sain Ffagan | 1,311 |
| Pentref Llaneirwg | 1,543 |
| Tongwynlais | 823 |

sef y symiau a gyfrifwyd yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

2.1 Cytuno bod y symiau canlynol bellach yn cael eu cyfrif gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) Cyfansymio'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) (gan gynnwys praeseptau'r Cyngor Cymuned sy'n dod i £366,815).
£1,007,699,815

b) Cyfansymio'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) a (c).

£401,119,579

c) Y swm y mae'r cyfanswm yn 2.1(a) yn fwy na'r cyfanswm yn 2.1(b) uchod a gyfrifwyd yn unol ag Adran 32(4) fel y gofyniad ar gyfer y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. £606,580,236

d) Cyfansymio'r symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y cânt eu talu yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas â'r Grant Cynnal

Refeniw, cynllun gostyngiad treth gyngor, Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu.

£440,946,781

e) Y swm ar 2.1(c) uchod ond gan dynnu swm 2.1(d) (net y swm ar gyfer rhyddhad diamod o £350,000), i gyd wedi'u rhannu gan y swm ar 2.0(a) uchod, wedi'i gyfrifo yn unol ag Adran 33(1) fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

£1,157.06

f) Cyfansymio swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1).

£366,815

g) Swm 2.1(e) uchod ond gan dynnu'r canlyniad a geir trwy rannu swm 2.1(f) uchod gan swm 2.0(a) uchod, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad oes eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

£1,154.50

h) Y symiau a geir trwy ychwanegu at swm 2.1(g) uchod y symiau o eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir isod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan swm 2.0(b) uchod, wedi'u cyfrifo'n unol ag Adran 34(3) fel symiau sylfaenol y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

| | £ |
|---|---|
| Llys-faen | 1,168.97 |
| Pentyrch | 1,198.32 |
| Radur | 1,187.37 |
| Sain Ffagan | 1,168.23 |
| Pentref Llaneirwg | 1,173.88 |
| Tongwynlais | 1,178.80 |

i) Y symiau a geir trwy luosogi symiau 2.1(g) a 2.1(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Gwerthuso) 2003, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band gwerthuso penodol wedi'i rannu gan y rhif sydd, yn y gyfran hon, yn berthnasol i aneddiadau a restrir ym mand gwerthuso D wedi'i gyfrif yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau anheddau a restrir mewn bandiau gwerthuso gwahanol.

| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llys-faen | 779.31 | 909.19 | 1,039.08 | 1,168.97 | 1,428.73 | 1,688.51 | 1,948.27 | 2,337.93 | 2,727.58 |
| Pentyrch | 798.88 | 932.03 | 1,065.18 | 1,198.32 | 1,464.61 | 1,730.91 | 1,997.20 | 2,396.64 | 2,796.08 |
| Radur | 791.57 | 923.51 | 1,055.44 | 1,187.37 | 1,451.22 | 1,715.09 | 1,978.94 | 2,374.73 | 2,770.52 |
| Sain Ffagan | 778.81 | 908.62 | 1,038.42 | 1,168.23 | 1,427.83 | 1,687.44 | 1,947.04 | 2,336.45 | 2,725.86 |
| Pentref Llaneirwg | 782.58 | 913.01 | 1,043.44 | 1,173.88 | 1,434.73 | 1,695.60 | 1,956.46 | 2,347.75 | 2,739.03 |
| Tongwynlais | 785.86 | 916.84 | 1,047.82 | 1,178.80 | 1,440.75 | 1,702.71 | 1,964.66 | 2,357.59 | 2,750.52 |
| Pob rhan arall o Ardal y Cyngor | 769.66 | 897.94 | 1,026.22 | 1,154.50 | 1,411.05 | 1,667.61 | 1,924.16 | 2,308.99 | 2,693.82 |

2.2 Nodi bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru, ar gyfer y flwyddyn 2018/19, wedi dweud bod y symiau canlynol mewn praeseptau wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

**BANDIAU GWERTHUSO**

| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| 155.68 | 181.63 | 207.57 | 233.52 | 285.41 | 337.31 | 389.20 | 467.04 | 544.88 |

2.3 Wedi cyfrif y cyfanswm ym mhob achos y symiau ar 2.1(i) a 2.2 uchod, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

Rhan o Ardal y Cyngor

**BANDIAU GWERTHUSO**

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Ardal** | | | | | | | | | |
| Llys-faen | 934.99 | 1,090.82 | 1,246.65 | 1,402.49 | 1,714.14 | 2,025.82 | 2,337.47 | 2,804.97 | 3,272.46 |
| Pentyrch | 954.56 | 1,113.66 | 1,272.75 | 1,431.84 | 1,750.02 | 2,068.22 | 2,386.40 | 2,863.68 | 3,340.96 |
| Radur | 947.25 | 1,105.14 | 1,263.01 | 1,420.89 | 1,736.63 | 2,052.40 | 2,368.14 | 2,841.77 | 3,315.40 |
| Sain Ffagan | 934.49 | 1,090.25 | 1,245.99 | 1,401.75 | 1,713.24 | 2,024.75 | 2,336.24 | 2,803.49 | 3,270.74 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentref Llaneirwg | 938.26 | 1,094.64 | 1,251.01 | 1,407.40 | 1,720.14 | 2,032.91 | 2,345.66 | 2,814.79 | 3,283.91 |
| Tongwynlais | 941.54 | 1,098.47 | 1,255.39 | 1,412.32 | 1,726.16 | 2,040.02 | 2,353.86 | 2,824.63 | 3,295.40 |
| Pob rhan arall o Ardal y Cyngor | 925.34 | 1,079.57 | 1,233.79 | 1,388.02 | 1,696.46 | 2,004.92 | 2,313.36 | 2,776.03 | 3,238.70 |

2.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i wneud taliadau dan Adran 38 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 o Gronfa'r Cyngor trwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis o fis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2019 mewn perthynas â'r praesept a godwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru sef £33,499,401.

2.5 Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r Dreth Gyngor ddywededig.

2.6 Cytuno bod y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i braeseptau ar gyfer Treuliau Iechyd Porthladd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019 sef

| | £ |
|---|---|
| Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd | 113,773 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg | 12,827 |

2.7 Cytuno bod hysbysiadau o greu'r Trethi Cyngor dywededig wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992.

3.0 Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodusrwydd ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21 gan ddirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 151 i beri symudiad rhwng y terfynau ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor o fewn y terfyn ar gyfer unrhyw flwyddyn.

4.0 Cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys ar gyfer 2018/19 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Awdurdod Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddiaeth) (Cymru) 2003 a diwygiadau dilynol.

5.0 Cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Refeniw Lleiaf ar gyfer 2018/19.

6.0 Awdurdodi Swyddog Adran 151 i godi arian yn ôl yr angen i ariannu Gwariant Cyfalaf trwy fenthyca dros dro neu hirdymor o fewn y terfynau a amlinellir yn y strategaeth uchod a dwyn cynlluniau yn eu blaen neu'u hoedi yn y Rhaglen Gyfalaf.

7.0 Cynnal Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor presennol fel y'i nodir yn yr adroddiad.

8.0 Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau a Chyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Chyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, i benderfynu ar bob agwedd ar y broses gaffael, gan gynnwys, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, datblygu'r holl ddogfennau caffael a meini prawf dethol a dyfarnu, o ddechrau caffael hyd at ddyfarnu contractau, ar gyfer cynigion penodol Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn unol â'r trothwyon a nodir yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: wedi ystyried sylwadau Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r gyllideb a digonoldeb arian wrth gefn fel sy'n angenrheidiol dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, ac wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb, argymhellir:

9.0 cymeradwyo newidiadau i'r ffioedd a'r costau fel y nodir yn Atodlen 11(a), 11(c) ac 11(d) i'r adroddiad hwn.

10.0 Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, y Swyddog Adran A151 a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i newid neu gyflwyno ffioedd a chostau newydd yn ystod y flwyddyn.

11.0 codi rhent yr holl anheddau Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys (hosteli a modurdai) wedi ystyried canllawiau LlC.

12.0 yr holl gostau gwasanaeth a ffioedd rheoli ar gyfer lesddeiliaid fel y nodir yn Atodlen 11(b).

13.0 pob cynnydd rhent Cyfrif Refeniw Tai o 2 Ebrill 2018 ymlaen.

14.0 cydnabod y gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o wydnwch ariannol y Cyngor a chymeradwyo'r camau a gymerwyd yn y gyllideb i wella'r sefyllfa hon.

15.0 cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor fel y'u nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a nodi'r cyfleoedd ar gyfer arbedion dros y tymor canolig.

**MONITRO CYLLIDEB – ADRODDIAD MIS 9**

Cafodd y Cabinet newyddion am sefyllfa monitro ariannol yr awdurdod ar sail naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Adroddwyd bod monitro refeniw ym mis naw'r Cyngor yn dangos sefyllfa gytbwys yn unol â sefyllfa mis chwech. Bu, fodd bynnag, newidiadau o fewn y sefyllfa gyffredinol gan gynnwys cynnydd yn y gorwariant ar gyllidebau cyfarwyddiaethau o ganlyniad i bwysau ychwanegol ar gyllidebau Gwasanaethau Plant o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, cynnydd yn rhagamcan costau ariannu cyfalaf a llai o arian dros ben o gasglu'r Dreth Gyngor. Mae hynny oll

wedi'i wrthbwyso gan gynnydd pellach mewn cronfeydd NDR ar eiddo Cyngor a chan rhagamcan y bydd modd arbed arian ar gyllidebau yswiriant yn y flwyddyn ariannol bresennol.

PENDERFYNWYD:

1. nodi sefyllfa alldro posib ar sail naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol.

2. atgyfnerthu'r gofyniad i'r holl gyfarwyddiaethau sydd ar hyn o bryd yn cofnodi gorwario fel y'i nodir yn yr adroddiad hwn, i weithredu i leihau'r gorwariant a ragwelir.

**ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 3**

Cafodd y Cyngor adroddiad perfformiad Chwarter 3 (mis Hydref tan fis Rhagfyr) blwyddyn ariannol 17-18. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad perfformiad gan y gyfarwyddiaeth ynghyd â throsolwg o berfformiad corfforaethol yn cynnwys cyfraddau absenoldeb salwch, cydymffurfio ag adolygiadau personol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a bodlondeb cwsmer. Nodwyd bod 59% o ymrwymiadau Cynllun Corfforaethol yn Wyrdd.

PENDERFYNWYD:

nodi'r sefyllfa bresennol o ran perfformiad, cyflawni ymrwymiadau a blaenoriaethau allweddol yn Chwarter 3, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu'r Cyngor.

**POLISI CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar gynnig am Bolisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol. Nod y polisi yw darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflwyno tri o fentrau Llywodraeth Cymru; Buddion Cymunedol, Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a Siart Caffael Cyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig.

Nod y polisi yw sicrhau bod pobl a chymunedau lleol yn manteisio ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gwario arian ar nwyddau a gwasanaethau a dangos ymrwymiad y Cyngor i gyflogaeth foesegol a sicrhau ei fod yn gwneud y gorau o'r lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y mae'n ei gyflawni drwy gaffael.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol,

2. bod y Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol hefyd yn gweithredu fel Polisi Cyflogaeth Foesegol y Cyngor ar gyfer cadwyni cyflenwi'r Cyngor.

## CYNLLUN RHEOL TIR AC EIDDO CORFFORAETHOL 2018/19

Derbyniodd y Cabinet Gynllun Rheoli Tir ac Eiddo Corfforaethol y Cyngor 2018/19. Mae'r Cynllun yn ddogfen flynyddol i roi Strategaeth Eiddo Corfforaethol ar waith. Mae'r targedau blynyddol yn y Cynllun yn cyfrannu at dargedau pum mlynedd yn y Strategaeth Eiddo a nodir amcanion ar gyfer yr ystâd weithredol yn glir. Mae'n amlinellu data allweddol, mae'n ategu egwyddorion cyffredinol strategaeth yr ystâd, mae'n amlinellu cynlluniau'r flwyddyn nesaf ac mae'n nodi targedau penodol am leihau maint a chost yr ystâd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Corfforaethol Rheoli Tir ac Eiddo 2018/19 a atodir i Atodiad 1 yr adroddiad.

## ARENA DAN DO

***Ni fydd Atodiadau 1, 3 a 4 yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Eithriwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar ganlyniadau ymarfer arfarnu safle i adnabod y lleoliad gorau ar gyfer project arena dan do. Nodwyd bod angen gwaith dichonoldeb ar y lleoliad a ffefrir gan gynnwys arfarniad ariannol manwl a bod angen diwydrwydd dyladwy i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth gyflawni. Caiff hon ei chyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried yng ngwanwyn/haf eleni

PENDERFYNWYD:

cymeradwyo'r lleoliad a ffefrir i'r project arena dan do fel y'i nodir yn yr adroddiad, a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i:

(i) Ddatblygu strategaeth gyflawni fanwl i'r project arena dan do gan gynnwys goblygiadau ariannol manwl i'r Cyngor a dychwelyd i'r Cabinet i gael yr awdurdod i fwrw ymlaen.

(ii) Fel rhan o (i) uchod, negodi telerau i gaffael tir nad yw'n eiddo'r Cyngor ar hyn o bryd, sy'n goch ar y cynllun safle a atodir yn Atodiad 5, a dychwelyd i'r Cabinet i gael yr awdurdod i fwrw ymlaen â phrynu'r safle.

## TIR WRTH GYFFORDD 30 YR M4

***Ni chyhoeddir Atodiadau 3 a 4 yr adroddiad hwn gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth o’r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a oedd yn nodi cynigion i brynu tir wrth ochr Cyffordd 30 yr M4. Nodwyd mai’r bwriad yw defnyddio’r safle i ddiweddaru nifer o wasanaethau allweddol y Cyngor ar gyfer y dyfodol wrth i boblogaeth y ddinas dyfu drwy ddatblygu safleoedd tai strategol yng Ngogledd Caerdydd.

PENDERFYNWYD cytuno ar brynu’r safle ger Cyffordd 30 yr M4 fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

**TRAFNIDIAETH TEITHWYR**

***Mae Atodiad 2 yr adroddiad hwn wedi’i eithrio rhag ei gyhoeddi yn unol â pharagraff 16 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a oedd yn manylu ar strategaeth i dendro contractau newydd cysylltiedig â gwasanaethau Trafnidiaeth. Mae Gwasanaethau Trafnidiaeth i Deithwyr yn darparu ar gyfer nifer o wasanaethau’r Cyngor gan gynnwys Addysg, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant. Nodwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau gan gynnwys ymysg eraill Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol, Gwasanaethau Bysus Ysgol Dynodedig a Chludiant Anghenion Dysgu Ychwanegol.

PENDERFYNWYD:

1. awdurdodi’r strategaeth gyffredinol arfaethedig i gaffael Contractau Trafnidiaeth i Deithwyr am 7 mlynedd gwerth £49 miliwn drwy System Brynu Ddeinamig.

2. dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd mewn ymgynghoriad a’r Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, y Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr y Gyfraith a Llywodraethu i gynnal pob agwedd ar y broses gaffael, yn ddigyfyngiad ac i gynnwys:

   i. cymeradwyo System Brynu Ddeinamig (SBD) newydd
   ii. cymeradwyo meini prawf gwerthuso tendr i sefydlu’r SBD newydd
   iii. penodi darparwyr newydd i’r SBD newydd ar ôl iddynt fodloni’r meini prawf dethol a nodir gan y Cyngor
   iv. dirprwyo ymhellach yr awdurdod i ddyfarnu contractau sy’n ofynnol dros oes y SBD newydd, ac i’r dirprwyaethau pellach fod yn unol â Chynllun Dirprwyo’r Cyngor.
   v. delio â’r holl faterion cysylltiedig sy’n ymwneud â gwneud unrhyw estyniadau byrdymor i gontractau unigol y gallai fod eu hangen nes i gontractau newydd gael eu caffael dan y SBD newydd

   Mae’r ddirprwyaeth a geisir yn eang ac yn cynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i, yr agweddau canlynol ar y broses gaffael:

(a) Cymeradwyo rhoi'r SBD newydd ar waith gan ddefnyddio rheolau Gweithdrefn Tendro Cyfyngedig Addasedig.
(b) Cytuno i ddefnyddio cyfuniad o e-arwerthiannau seiliedig ar filltiredd ac e-arwerthiannau am yn ôl i ddyrannu llwybrau penodol ar y pris mwyaf cystadleuol a gaiff ei gynnig drwy SBD.
(c) Penodi darparwyr gwasanaeth newydd i'r SBD, ar ôl iddynt fodloni'r meini prawf dethol y cyngor yn y dogfennau tendro, yn ôl y gofyn.
(d) Ar ôl hynny, y Cyfarwyddwr i ddirprwyo ymhellach yr awdurdod i ddyfarnu contractau sy'n ofynnol dros oes yr SBD newydd, ac i ddirprwyaethau pellach fod yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor.
(e) Os, am unrhyw reswm technegol, nad oes modd defnyddio system gwbl electronig (SBD), cynnal y broses gaffael drwy ddull arall (dull nad yw'n e-gaffael) a rheoli'r trefniadau contract a roddwyd ar waith.